

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

St Justinians/Porth Clais

Teithiau Hanner Dydd a Mwy




GRADDFA: 0 400 800 m

PELLTER/HYD: 5.9 milltir (9.6 km) 3 awr (llwybr llygad i leihau i hanner amser)

CLUDIANT CYHOEDDUS: * Celtic Coaster 403 o Dyddewi i St Justinians (*tymhorol, galw a teithio)

CYMERIAD: (2.7 km o gerdded ar y ffordd) arfordir garw, ymylon clogwyni

CHWILIWCH AM: Harbwr Porth Clais - golygfeydd at Ynys Dewi • Gorsaf bad achub St Justinian



CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Llwybr yr Arfordir
- Cadwch at y Llwybr ac i ffordd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiau

ALLWEDD

- • • • • Llwybr Cylch
- — — — — Llwybr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
- — — — — Llwybrau Cyhoeddus
- — — — — Ymddiriedolaeth Genedlaethol:
Llwybrau caniatool
- P Maes Parcio
- WC Toiledau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws

St Justinians/Porth Clais

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 3 awr (llwybr llygad i leihau i hanner amser)

Pellter: 5.9 milltir (9.6 km)

Cludiant cyhoeddus: *Celtic Coaster 403 o Dyddewi i St Justinians (*tymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SM721251

"Porthclais yw fy hoff le i ar yr arfordir hyd yn hyn," meddai Rowland Hammett o Gerddwyr Cwm Clydach

Chwiliwch am: Harbwr Porth Clais, golygfeydd i Ynys Dewi a'r orsaf bad achub newydd ym Mhorthstinian, sy'n eistedd ochr ym ochr â'r hen un.

Mae'r clogwyni o amgylch St Justinian wedi eu cysgodi rhag y tywydd gwaethaf gan Ynys Dewi felly, yn ogystal â'r wledd o flodau gwyllt yn y Gwanwyn a'r Haf (clustog Fair, serennyn, teim, crafanc y frân, gludlys) fe allwch ddisgwyl gweld y ddraenen ddu a gwyros yn dal yn dynn i'r clogwyni. Glaswelltir a rhos arforol sydd ar y mwyafrif o'r tir mwy agored ar gopa'r clogwyni.

Mae morloi llwyd yn bridio ar y traethau islaw o ddiwedd mis Awst er bod Ynys Dewi ei hun yn cynnal y gytref fridio fwyaf yn y Parc. Mae grym eithafol y llanw yn Swnt Dewi a dyfroedd cyflym y Bitches yn ganlyniad i'r cyfarfod rhwng dŵr Môr Iwerddon a Chulfor San Siôr sydd, diolch byth i adar y môr a llamhidyddion, yn dod â physgod i'r wyneb sy'n hawdd eu pigo pan fydd y llanw'r rhedeg. Yn yr ardaloedd corsïog o amgylch Pwll-y-Trefeiddan chiliwch am yr ymerawdwr, gwas y neidr eurdorchog a gwas y neidr blewog a'r fursen fach goch a'r fursen ddeheuol. Mae cudyllod glas,

bwncathod a chudyllod coch yn bridio yn y prysglwyni helyg a hwyaid gwyllt, chwiwellod a chorhwyaid yn byw ar y pwll.

Dyma beth oedd gan Rowland Hammett i'w ddweud am y daith: "Porth Clais yw fy hoff le i ar yr arfordir hyd yn hyn. Roeddwn i wrth fy modd gyda'r porthladd. Yn gynnar yn y bore - gwyllo'r llanw'n dod i mewn trwy fynedfa gul yr harbwr. Beth allai ddweud? Mae St Justinian's yn brofiad y mae'n rhaid i chi ei gael eich hun."

Mae yna gryn dipyn o dystiolaeth o Gristnogaeth Geltaidd gynnar ar hyd y darn hwn o'r arfordir, chiliwch am Capel a Ffynnon St Justinian's ym Mhorthstinian, sydd hefyd yn gartref i Orsaf y Bad Achub. Ar un adeg, harbwr Porth Clais ar aber yr afon Alun oedd y man lle daethpwyd â nwyddau i mewn ar gyfer yr eglwys gadeiriol yn Nhyddewi.

Mae Ian Meopham, Parcmon Sector y Gorllewin gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, wedi cerdded y daith hon. Mae'n dweud: "Darn gwych o Lwybr yr Arfordir os am weld y frân goesgoch, mulfrain wen, mulfrain gwyrdd, mulfrain a chlochdarod y cerrig. Gellir gweld morloi trwy gydol y flwyddyn, ond mae yna gyfle gwych yn yr Hydref i weld morloi llwyd newydd-anedig. Pan fydd dŵr yn isel, gellir gweld llamhidyddion hefyd. Mae yna doreth o flodau arfordirol yn y Gwanwyn, gyda sioe o flodau sy'n cynnwys corbys afu, gludlys arfor, clustog Fair a'r serennyn."

Cymeriad: (2.7 km o gerdded ar y ffordd) arfordir garw, ymylon clogwyni.

